

COFNODION CYNGOR CYMUNED LLANRHAEADR-YNG-NGHINMEIRCH A GYNHALIWYD AR NOS LUN 22AIN O HYDREF 2018 YN FESTRI CAPEL, SARON AM 7.30 O'R GLOCH.

PRESENNOL: Y Cynghorwyr Elfed Williams (Cadeirydd), Philip Williams, Stanley Williams, Arwel Davies, Iwan Jones, Cynghorydd Sir Ddinbych Joseph Welch a'r Clerc.

1: YMDDIHEURIADAU: Y Cynghorydd Barri Evans.

2. DDATGAN DIDDORDEB.

Dim

3. TRAFODAETH GYDA MR TIM TOWERS, ADRAN BRIFFYRDD CYNGOR SIR DDINBYCH.

Croesawodd y Cadeirydd i Mr Tim Towers am fod yn bresennol yn y cyfarfod. Rhoddwyd adroddiad gan Mr Towers bydd yna waith yn cael eu gwneud ar y ffyrdd rhwng Prion i Saron a Prion i Llanrhaeadr yn y flwyddyn ariannol bresennol. Rhoddwyd rhestr o'r ffyrdd canlynol i Mr Towers sydd eisiau gwaith cyfalaf arnynt yn y gymuned:-

A: Ffordd heibio Penbrynllan yn Llanrhaeadr.

B: Ffordd heibio Pen-y-Waen, Llanrhaeadr.

C: Ffordd Drws-y-Buddel yn Saron.

D: Ffordd heibio Fferm-y-Coleg ac Pen-y-Gerddi ym Mheniel.

E: Ffordd heibio Rhewl Valley a Cae Glas ym Mheniel.

F: Ffordd heibio Fferm y Lon, Prion.

Diolchwyd y Cadeirydd i Mr Towers am fynychu'r cyfarfod.

4. CADARNHAU COFNODION BLAENOROL Y CYNGOR.

Cadarnhawyd cofnodion 24ain o Fedi 2018 a'u harwyddwyd gan y Cadeirydd.

5. MATERION YN CODI O'R COFNODION.

A. Mae'r Clerc yn dal i ddisgwyl ymateb Cyngor Sir Ddinbych ynglŷn ar ganlynol:-

1. Adran Briffyrdd ynglŷn ar faterion ffyrdd yn y gymuned.

2. Adran Cynllunio ynglŷn ar broblemau cynllunio ar safle Maes Carafanau yn Cae'r Mynydd, Saron.

B. Derbyniwyd y Clerc ymateb oddi wrth Mr Dafydd Rhys, Pennaeth Ysgol Pasypastynog, yn cadarnhau ei fod yn dal i ddisgwyl ymateb oddi wrth Mr Huw Thomas o Scottish Power ynglŷn ar waith maent wedi clustodi ar gyfer y maes parcio'r Ysgol. Derbyniwyd adroddiad y Cynghorydd Stanley Williams fod Scottish Power ddim yn bwriadu ymhellach i wneud gwellau i'r maes pacio Ysgol Pantpastynog. Penderfynwyd yr aelodau i'r Clerc gysylltu gydag Mr Eryl Roberts o gwmni Jones Bros, a rhoddwyd gwybodaeth i'r aelodau a oedd yn bresennol yn y cyfarfod safle yn ystod mis Gorffennaf 2018 mae'r cwmni yn barod i gymorth y gymuned leol gyda phrosiectau, i ofyn ac mae'r cwmni yn fodlon helpu gyda'r gwaith sydd ei angen ym maes parcio Ysgol Pant Pastynog.

6. CYLLID.

A. Datganiad Banc £15,106.00.

B. Taliadau:-

1. Cyngor Sir Ddinbych - tal cyfarfod mis Hydref 2018 o'r Cyngor £20.00.
2. Cynghorydd Philip Williams - chostau teithio i'r Cyfarfod a Chynhadledd Flynyddol Un Llais Cymru ar 29ain o Fedi 2018 - £98.00.
3. Hawthorn Health am 216 brws danned di blastig i'r disgyblion Ysgolion Bro Cinmeirch a Phant Pastynog - £313.31.
4. Charles Alexander Distribution Group am 250 poteli ddi plastic disblygion Ysgolion Bro Cinmeirch a Phant Pastynog - £906.00.

7. CAIS CYNLLUNIO.

Cais 23/2018/0857 i godi estyniadau ac addasiadau i'r annedd yn Ffrith Fedw, Prion - dim gwrthwynebiad.

8. GOHEBIAETH.

Derbyniwyd nifer o adroddiadau er wybodaeth.

9. MATERION CYNGOR SIR DDINBYCH.

Eisoes wedi ei thrafod yn ystod y cyfarfod.

10. MATERION BRYD O DAN ADRAN 100B(4) O'R DDEDDF LLYWODRAETH LEOL 1972.

A. Derbyniwyd adroddiad y Cynghorydd Philip Williams o'r Pwyllgor Ardal Siroedd Conwy a Dinbych diweddar o Un Llais Cymru yn cynnwys arolwg o'r yswiriant Cynghorau lleol gyda'r Cwmni Came & Company. Penderfynwyd yr arolwg yswiriant y Cyngor yn ystod mis Chwefror 2019.

B. Derbyniwyd adroddiad y Cynghorydd Elfed Williams ei fod mewn cysylltiad gydag Ysgolion Bro Cinmeirch a Phant Pastynog i ddosbarthu'r brws danned a photeli di blastig i'r disgyblion ar ôl gwyliau'r hanner tymor.

C. Penderfynwyd gwahodd Rheolwr Prosiect Cymdeithas Cadwraeth Llanrhaeadr-yng-nghinmeirch i'r cyfarfod nesaf y Cyngor i roi manylion diweddaraf o'r prosiect i'r Cyngor.

D. Derbyniwyd adroddiad y Cynghorydd Elfed Williams ei fod yn ymchwilio trwy Gwmni Bogons ynglŷn â gosod Band Eang mewn cymuned yn yr Alban.

11. CYFARFOD NESAF Y CYNGOR – Nos Lun 26ain o Dachwedd 2018 yn Ysgol Bro Cinmeirch, Llanrhaeadr am 7.30 o'r gloch.